# Mae Credydau Treth yn dod i ben. Beth sy'n digwydd i bobl o oedran pensiwn?

Mae'r system Credyd Treth, a weinyddir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi, sy'n darparu taliadau nawdd cymdeithasol prawf modd i blant (Credyd Treth Plant) ac ychwanegiadau i gyflog isel (Credyd Treth Gwaith) yn dod i ben a bydd hyn yn effeithio ar bawb sydd ar Gredydau Treth ar hyn o bryd ni waeth beth yw eu hoedran.

Nid yw'n bosib gwneud cais newydd am Gredydau Treth mwyach. Fodd bynnag, mae dyfarniad o un credyd yn golygu y gellir cyfrifo a thalu'r llall gyda'r dyfarniad presennol os bydd amgylchiadau'n newid fel bod amodau'n cael eu bodloni heb wneud hawliad newydd. Bydd hyn yn parhau i fod yn bosib tan fis Ebrill 2025.

Mae'r broses o symud hawlwyr oedran gweithio ar gredydau treth i fudd-daliadau eraill wedi'i chyhoeddi'n eang ond mae'r erthygl hon yn esbonio beth sy'n digwydd i'r rheini sydd o oedran pensiwn, sydd wedi cael llawer llai o gyhoeddusrwydd.

## Hawlwyr Credyd Treth sydd eisoes ar Gredyd Pensiwn

Mae rhai pensiynwyr sy'n cael Credydau Treth eisoes yn hawlio Credyd Pensiwn. Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd. Bydd y grŵp hwn o bobl yn derbyn 'Hysbysiad o Gau Credyd Treth', sy'n dweud wrthynt pryd y bydd eu Credydau Treth yn dod i ben. Rhaid i hyn fod o leiaf 2 fis o'r dyddiad ar yr hysbysiad o gau.

Nid oes angen i'r grŵp hwn o bobl wneud unrhyw beth heblaw sicrhau bod eu holl wybodaeth yn gywir, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn eu hawl lawn pan fydd Credydau Treth yn cael eu cwblhau a Chredyd Pensiwn yn cael ei ailasesu.

Bydd y dyfarniad Credyd Pensiwn presennol yn cael ei ailasesu i gynnwys pob plentyn a 'pherson ifanc' dibynnol (yn ôl diffiniadau AGPh). Ni fydd 'cyfyngiad dau blentyn', hyd yn oed os yw hynny'n berthnasol i'r hawliad credydau treth sy'n dod i ben.

Os bydd ailasesiad Credyd Pensiwn yn golygu bod yr hawliwr yn colli mwy o arian nag o'r blaen, bydd 'swm ychwanegol trosiannol' yn cael ei gynnwys fel nad yw pobl yn colli arian ar adeg y newid.

- Mae angen cyngor i bobl sydd â newid yn eu hamgylchiadau ar ôl derbyn yr hysbysiad o gau Credyd Treth, e.e. dod yn sengl neu ddod yn gwpl.

## Hawlwyr Credyd Treth oed pensiwn neu gyplau oed cymysg 'gwarchodedig' nad ydynt yn cael Credyd Pensiwn

- **Angen gweithredu**

Mae'r paragraff canlynol yn berthnasol i bensiynwyr sengl neu gyplau lle mae'r ddau ohonynt o oedran pensiwn ac i gyplau oed cymysg 'gwarchodedig'. Mae pâr oedran cymysg (MAC) yn gwpl lle mae un dros oedran pensiwn a'r llall o dan oedran pensiwn. Mae'r grŵp hwn fel arfer yn dod o dan Gredyd Cynhwysol oni bai eu bod mewn 'grŵp gwarchodedig'. Cyplau oedran cymysg gwarchodedig yw'r rheini sydd eisoes yn derbyn Credyd Pensiwn neu a oedd yn hawlio budd-dal tai 'oedran pensiwn' yn yr un cwpl ers 15 Mai 2019. '

## Hawlwyr Credyd Treth sydd ond yn cael CTC ac nad ydynt yn bodloni'r rheolau gwaith sylfaenol ar gyfer cyfrifo WTC

Bydd pobl sengl, cyplau dros oedran pensiwn a chyplau oedran cymysg gwarchodedig sy'n

bodloni'r rheolau ar gyfer Credyd Treth Plant yn unig yn derbyn 'hysbysiad o gau credyd treth' ac yn cael eu gwahodd i hawlio Credyd Pensiwn. Mae'r hysbysiad o gau'n rhoi dyddiad cau ar gyfer Credydau Treth sy'n dod i ben ac i'r hawliad i Gredyd Pensiwn gael ei wneud. Rhaid i hyn fod o leiaf 3 mis o'r dyddiad ar yr 'hysbysiad o gau credyd treth'. Gellir ymestyn y dyddiad cau ar gais os oes 'achos da'. Nid yw hon yn rhestr ragnodol ac mae'n cynnwys pethau fel salwch a/neu anabledd a bod angen mwy o gymorth a chefnogaeth gyda'r broses. Dylid ystyried achosion yn ôl amgylchiadau unigol.

- Cyngor a chymorth angenrheidiol os gwrthodir estyniadau i'r dyddiad cau

Os hawlir Credyd Pensiwn o fewn y dyddiad cau (gwreiddiol neu estynedig), bydd asesiad o Gredyd Pensiwn yn cynnwys 'swm ychwanegol trosiannol' *os bydd yr hawliwr yn colli arian* ar Gredyd Pensiwn. Bydd Credyd Pensiwn yn cynnwys taliadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc dibynnol heb 'gyfyngiad dau blentyn'. Mae dyddiad cau terfynol sy'n galluogi cynnwys gwarchodaeth drosiannol cyn belled â bod yr hawliad yn cael ei wneud **o fewn mis** i'r dyddiad cau gwreiddiol ddod i ben, a bydd hawliad Credyd Pensiwn yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad cau gwreiddiol. Fodd bynnag, bydd Credydau Treth yn dod i ben erbyn y dyddiad cau a roddir yn yr hysbysiad cau o hyd, a fydd yn gadael hawlwyr heb arian wrth iddynt aros i'r hawliad Credyd Pensiwn ac am y broses ôl-ddyddio.

- **Mae'n bwysig gweithredu a chael cyngor pan dderbynnir hysbysiad o gau Credyd Treth er mwyn cael unrhyw warchodaeth drosiannol sy'n daladwy.**
- **Gellir gwneud ceisiadau am Gredyd Pensiwn *hyd at* fis ar ôl y dyddiad cau ond bydd hyn yn arwain at fynd heb incwm sylfaenol yn ystod y cyfnod aros.**
- **Gall hawliadau a wneir *<u>ar ôl</u>* y 'dyddiad cau terfynol' (o fewn mis i'r dyddiad cau), gael eu hôl-ddyddio o dan reolau Credyd Pensiwn arferol ond <u>ni</u> fydd symiau trosiannol wedi'u cynnwys.**
- **Mae pob math o warchodaeth drosiannol, gan gynnwys lle mae Credyd Pensiwn yn cael ei ailasesu pan ddaw Credyd Treth i ben, yn cael ei 'dirywio' dros amser a gall ddod i ben yn llwyr pan fydd rhai newidiadau'n digwydd.**

## Hawlwyr Credyd Treth sy'n cael CTC a WTC neu WTC yn unig neu a fyddai'n cael WTC ond bod eu hincwm yn rhy uchel.

- **Angen gweithredu**

Bydd y grŵp hwn yn cael 'Hysbysiad Mudo' a gwahoddiad i hawlio Credyd Cynhwysol yn lle 'hysbysiad o gau Credyd Treth'. **Mae hyn yn eithriad i'r rheolau arferol bod Credyd Cynhwysol ar gyfer pobl o dan oedran pensiwn.**

Y rhesymeg y tu ôl i'r eithriad hwn i bensiynwyr sy'n gweithio yw bod Credyd Cynhwysol yn trin enillion yn fwy ffafriol na'r rheolau enillion ar gyfer Credyd Pensiwn.

Mae'r 'hysbysiad mudo' yn rhoi dyddiad cau ar gyfer Credyd Treth sy'n dod i ben ac ar gyfer hawlio CC. Rhaid i hyn fod o leiaf 3 mis o'r dyddiad ar yr hysbysiad. Mae'r un rheolau'n berthnasol i achosion eraill o 'ymfudo a reolir' fel y bydd hawliadau ar gyfer CC hyd at fis ar ôl y dyddiad cau'n cynnwys gwarchodaeth drosiannol ac ôl-ddyddio i'r dyddiad cau, ond bydd Credydau Treth yn dod i ben erbyn y dyddiad cau hwnnw o hyd. Gall y grŵp hwn o bobl barhau i hawlio Credyd Pensiwn os yw'n well ganddynt, cyn belled â bod *dau aelod* o gwpl yn oed pensiwn neu'n 'gwpl oedran cymysg gwarchodedig'.

**Mae'n bwysig i'r grŵp hwn gael cyngor a chyfrifiadau gwell eu byd oherwydd, er y gall y rheolau enillion fod yn fwy hael ar Gredyd Cynhwysol, mae llawer o agweddau eraill ar Gredyd Cynhwysol yn llai hael na Chredyd Pensiwn a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau pob unigolyn.**

- **Mae'r un rheolau ar gyfer gofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer 'achos da' yn berthnasol fel yr amlinellir uchod.**

- **Ni fydd y rheini yn y grŵp hwn sy'n dewis hawlio Credyd Pensiwn yn lle Credyd Cynhwysol yn cael unrhyw warchodaeth drosiannol i gyfraddau budd-dal presennol.**